
# Ehangu Cyfranogiad

## Adroddiad Blynyddol 2024

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd



# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Ymgysylltu ac ysbrydoli** 4

Gweithio gydag ysgolion 4

Grwpiau blaenoriaeth 6

Gweithio gyda rhieni 7

**Denu a recriwtio** 8

Camu ‘Mlaen 8

Partneriaeth Sutton Trust 9

Diwrnodau Agored 9

Derbyn myfyrwyr ar sail cyd-destun 10

Llwybrau at radd 10

Aspire 11

**Sylw i ysgolion academaidd** 12

Mentora 12

**Pontio a chefnogi** 14

Myfyrwyr aeddfed 14

Ysgoloriaeth Cowrie 14

Bywyd Myfyrwyr 15

**Dyfodol hyderus a llwyddiannus** 17

Dyfodol Myfyrwyr 17

Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr 18

**Myfyrdodau** 19








# Rhagair

## Cenhadaeth Prifysgol Caerdydd yw cyd-greu a rhannu gwybodaeth newydd er mwyn sicrhau byd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Rydym ni'n gwneud hyn drwy gynnig profiad addysgol rhagorol i fyfyrwyr o bob cefndir. Mae 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd', y strategaeth ar gyfer y brifysgol gyfan sy'n gosod ein cyfeiriad hyd at 2035, yn amlinellu'r penderfyniad i gynnig dysgu hyblyg, gydol oes i fyfyrwyr sy'n rhoi dewisiadau, asiantaeth a llais iddynt; ac i helpu pobl o bob cefndir i drawsnewid eu bywyd.

Rydym ni'n cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogiad ar bob cam o'u taith myfyriwr; o ysbrydoli pobl o bob cefndir i ystyried prifysgol fel opsiwn cyraeddadwy, i feithrin dyfodol hyderus a llwyddiannus i'n holl fyfyrwyr. Yn 2023-24, buom ni'n gweithio gyda dysgwyr sy'n oedolion, unigolion â phrofiad o ofal a gofalwyr ifanc, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ymhlith eraill.

Mae Strategaeth Ehangu Cyfranogiad 2020-2025 yn pwysleisio grym addysg i drawsnewid bywydau ac yn mynnu na ddylai anfanteision addysgol ac economaidd fod yn rhwystrau i fyfyrwyr gyflawni eu potensial academaidd llawn a manteisio ar yrfaoedd ystyrlon a boddhaus.

**Mae gan y strategaeth bedwar prif nod:**

1. **Ymgysylltu** â phobl o bob cenhedlaeth a'u **hysbrydoli** i ystyried addysg uwch fel opsiwn realistig a chyraeddadwy.
2. **Denu a recriwtio** myfyrwyr sydd â photensial academaidd, waeth beth fo eu cefndir neu eu profiadau personol.
3. Galluogi pobl i **bontio'n llwyddiannus** i'r Brifysgol a meithrin profiad myfyriwr rhagorol a chefnogol.
4. Meithrin ac annog **dyfodol hyderus a llwyddiannus** i bawb.

Mae'r adolygiad blynyddol hwn o ehangu cyfranogiad ym Mhrifysgol Caerdydd yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn cyfleu a dathlu'r cynnydd y mae timau ar draws y Brifysgol wedi'i gyflawni i sicrhau bod Prifysgol Caerdydd yn rhywle lle gall pawb ddysgu.

**Nicola Innes**
Rhag Is-Ganghellor Dros Dro ar gyfer Addysg a Phrofiad Myfyrwyr

# Ymgysylltu ac ysbrydoli

## Mae ein prosiectau ymgysylltu ac ysbrydoli yn annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i anelu at addysg uwch.

Ym Mhrifysgol Caerdydd, rydym ni'n credu yng ngrym addysg i drawsnewid bywydau. Trwy ein gwaith, rydym ni'n ymdrechu i sicrhau bod pob myfyriwr, beth bynnag yw eu cefndir, yn cael eu hysbrydoli i wneud cais i brifysgol ac astudio, llwyddo a ffynnu mewn addysg uwch a thu hwnt.

Mae'r Tîm Ehangu Cyfranogiad yn cyflwyno prosiectau trwy gydol y flwyddyn gydag amrywiaeth o grwpiau i ysbrydoli a chefnogi dilyniant i brifysgol.

## Gweithio gydag ysgolion

**Mae ein gwaith gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn y gymuned leol yn cynnig cyfleoedd addysgol difyr i ddisgyblion, gan ysbrydoli pobl ifanc trwy'r ymchwil a'r arbenigedd a geir yn y brifysgol. Mae mentrau, gan gynnwys y Sioe Deithiol Addysg Uwch ac 'Academi'r Gofod', wedi gweithio gyda thros 10,000 o fyfyrwyr i'w hannog i ystyried manteision addysg uwch.**

### Rhaglen Ysgolion Cynradd

Caiff Raglen Ysgolion Cynradd Prifysgol Caerdydd ei chyflwyno mewn partneriaeth â menter Pasbort i'r Ddinas Cyngor Caerdydd: Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i blant astudio pynciau sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, dysgu sgiliau newydd a chodi eu huchelgais.



**Yn 2023-24 cynhaliwyd dros 15 o sesiynau campws, yn cynnwys 12 ysgol academaidd, wyth ysgol gynradd a thros 450 o ddysgwyr.**

**"Drwy fanteisio i'r eithaf ar adnoddau'r ddinas a'r cyfleoedd gwych sydd ar gael drwy ein partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd ac eraill, gallwn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy gyfrwng darpariaeth ryfeddol o amrywiol nad yw o bosibl ar gael iddyn nhw fel arfer."**

Y Cynghorydd Sarah Merry, Dirprwy Arweinydd Cyngor Caerdydd ac Aelod Cabinet dros Addysg

**"Cafodd ein plant a'u teuluoedd amser gwych yn y seremoni raddio. Drwy gymryd rhan mae dyheadau ein teuluoedd wedi codi, sydd wedi rhoi gwir ymdeimlad o bwrpas a chyflawni iddyn nhw. Rydyn ni mor ddiolchgar i'r Brifysgol am roi'r profiadau gwych hyn i'n plant ac i Gyngor Caerdydd am ariannu ein trafnidiaeth i allu cymryd rhan."**

Nicky Prichard, Pennaeth Ysgol y Santes Fair y Wyryf – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru

# Cefnogi ysgolion

## Y Rhwydwaith Llywodraethwyr Ysgol

Mae'r Rhwydwaith Llywodraethwyr Ysgol yn cefnogi staff y brifysgol i ddod yn llywodraethwyr ysgol. Mae llywodraethwyr ysgol yn defnyddio eu sgiliau a'u harbenigedd i gefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion a gwella cyrhaeddiad addysgol a lles y genhedlaeth nesaf.

**"Gan nad oes gen i blant, dwi'n gallu bod yn niwtral wrth wneud penderfyniadau, sy'n gallu bod yn anodd i rai llywodraethwyr eraill wrth wneud penderfyniadau anodd ar bethau fel y gyllideb neu staffio. Mae o fudd i'r corff llywodraethu ac i'r Brifysgol wrth rannu a datblygu sgiliau a gwybodaeth."**

Ruth Williams-Sharp, aelod o Rwydwaith Llywodraethwyr Ysgol Prifysgol Caerdydd

**Mae dros 120 o staff bellach yn aelodau o'r Rhwydwaith Llywodraethwyr Ysgol, cynnydd o 25% ers y llynedd.**

**"Roedd cefnogaeth y Cynllun Llywodraethwyr Ysgol yn gwbl allweddol yn fy helpu i wneud y penderfyniad i ymgeisio. Cefais gefnogaeth un-i-un ganddyn nhw i fy helpu i ddeall yr ymrwymiad ac ateb unrhyw gwestiynau oedd gen i. Roedd polisi'r Brifysgol ar ddyletswyddau dinesig a'r ffaith ei fod yn cael ei gydnabod a bod modd ei gynnwys yn yr ADP yn fudd gwirioneddol i mi. Fe helpodd fi i deimlo fy mod yn cael cefnogaeth i ymgymryd â'r rôl."**

Ali Carter, aelod o'r Rhwydwaith Llywodraethwyr Ysgol

## Cynllun Grantiau Bach i Lywodraethwyr Ysgolion

Yn 2023-24, roedd ysgolion oedd â staff Prifysgol Caerdydd yn llywodraethwyr ysgol yn gallu ymgeisio i dderbyn £500 yr un ar gyfer gweithgareddau a fyddai o fudd i ddisgyblion â nodweddion ehangu cyfranogiad. Ariannodd y cynllun fentrau oedd yn cefnogi: arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol, lles, y cwricwlwm newydd i Gymru, adfer ar ôl aflonyddwch addysgol, cau'r bwlch cyrhaeddiad, datblygu sgiliau newydd,



cymorth ar gyfer dyheadau gyrfa, ac addysgu a dysgu.

**Dyfarnwyd cyllid i 10 ysgol gyflawni prosiectau, gyda 176 o ddisgyblion a 63 o athrawon yn elwa.**

# Ysbrydoli trwy ymchwil

Cynhaliwyd cynllun grantiau bach oedd yn herio ymchwilwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth bynciol a'u sgiliau ymchwil i ennyn diddordeb ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, trwy grant bach i gefnogi gweithgareddau i ddisgyblion CA3 a CA4.

**Dyfarnwyd grantiau bach i bum prosiect ac ymgysylltwyd â thros 1,500 o ddisgyblion ysgol gynradd.**

**"Mae wedi ysbrydoli 12 o'r 13 myfyriwr oedd yn bresennol i fod eisiau mynd i'r brifysgol ... mae'r effaith yn wych!"**

Pennaeth Blwyddyn, Ysgol Gymunedol y Porth

Derbyniodd Academi'r Gofod Caerdydd arian ar gyfer 'Mission2Mars', rhaglen sy'n cynorthwyo disgyblion i ddysgu mwy am deithio i'r gofod a gwladychu'r blaned Mawrth.

**"Dwi wedi cyfarfod â phobl sydd â phob math o yrfaoedd a straeon sydd wedi fy ngwneud yn fwy hyderus am bynciau STEM."**

Cyfranogwr yn Academi'r Gofod

**"Aeth dau blentyn yn fy nosbarth i Academi'r Gofod, a dydyn nhw ddim wedi stopio siarad amdano ers iddyn nhw ddod yn ôl, roedden nhw wrth eu bodd!"**

Athro, Ysgol Uwchradd Cathays

# Sioe Deithiol Addysg Uwch

Yn 2023-24 ymwelodd y Sioe Deithiol AU â 52 o ysgolion ledled Cymru, gan rannu gwybodaeth am addysg uwch, y manteision yn gysylltiedig ag astudio pellach, a phwysigrwydd gweithio'n galed yn yr ysgol.

**Datblygwyd pwnc newydd, Meithrin Gwydnwch a Rheoli eich Iechyd Meddwl, a chafodd ei gyflwyno 34 o weithiau.**

**Ymgysylltodd dros 10,000 o fyfyrwyr**

- 181 o sgyrsiau/gweithdai
- 30 o ymweliadau â'r campws

**Byddai 90% o athrawon yn argymell y Sioe Deithiol AU.**

**"[Roedd y sesiynau'n] llawn gwybodaeth ac wedi'u cyflwyno mewn ffordd oedd yn ennyn diddordeb yr holl fyfyrwyr."**

Ysgol Uwchradd Aberteifi

**"[Roedd y sesiynau'n] ddefnyddiol ac roedd modd eu haddasu i fy mhwrpas i, sef ysbrydoli disgyblion oedd yn annhebygol o feddwl am brifysgol i wneud hynny."**

Ysgol Greenhill

# Grwpiau blaenoriaeth

Mae ein rhaglenni ar gyfer grwpiau blaenoriaeth yn grymuso cyfranogwyr trwy ddarparu profiadau prifysgol cadarnhaol, gweithgareddau ymarferol i feithrin sgiliau, a chynnig cefnogaeth hanfodol ynghylch ymgeisio a mynychu addysg uwch. Mae ein rhaglenni wedi'u teilwra i gynorthwyo grwpiau y credwn sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i ddod i'r brifysgol fel rhai sydd â phrofiad o ofal (gan gynnwys mabwysiadu), wedi ymddieithrio, gofalwyr, dysgwyr aeddfed a rhai sydd â phrofiad milwrol.






## Dyfodol Hyderus

Gan weithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal (gan gynnwys rhai sydd wedi'u mabwysiadu), rhai sydd wedi ymddieithrio oddi wrth deulu, a gofalwyr ifanc, nod Dyfodol Hyderus yw rhoi profiadau addysg uwch cadarnhaol i gyfranogwyr a chodi hyder yn eu gallu i symud ymlaen i brifysgol.

Mae Dyfodol Hyderus yn cynnig cyflwyniadau mewn ysgolion ac yn y gymuned, ymweliadau â champws Prifysgol Caerdydd, a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fynd i'r brifysgol.

Yn ogystal â chynnal ein digwyddiadau ein hunain, mae gweithgareddau wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith Maethu, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr ac Ymddiriedolaeth Trussel. Mae'r cydweithrediadau hyn yn cryfhau ein cysylltiadau ar draws y gymuned gofalwyr ifanc a'r rhai sydd â phrofiad o ofal.

**"Adborth cadarnhaol iawn gan y disgyblion ac mae'n sicr wedi cael gwared ar unrhyw ofnau oedd ganddyn nhw o'r blaen am y brifysgol."**

Athro, Ysgol Stanwell

## Darganfod

Mae Darganfod yn cynnig cipolwg i bobl ifanc awtistig ar y brifysgol a'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu yno. Mae dosbarthiadau meistr ac ysgol haf breswyl yn cynyddu dealltwriaeth cyfranogwyr o addysg uwch a'i manteision, ac yn rhoi sgiliau gwerthfawr iddynt ar gyfer y dyfodol.

### Dosbarthiadau Meistr Darganfod

Bu'r bobl ifanc yn cyfarfod dros bum wythnos i gymdeithasu ac, mewn amgylchedd diogel, trafod pryderon ynghylch symud i addysg uwch trwy weithdai a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau a hyder.

**Roedd 90% o gyfranogwyr y prosiect yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn ystyried mynd i'r brifysgol yn y dyfodol.**

**"Cefais gwrdd â mwy o bobl fel fi ac felly gwnes i ffrindiau newydd. Fe ddes i gael y pizza, ac aros ar gyfer y bobl a'r sesiynau hwyliog, llawn gwybodaeth."**

Cyfranogwr Darganfod

Ochr yn ochr â chefnogi myfyrwyr, mae Darganfod yn darparu sesiynau gwybodaeth a chyngor i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i'w helpu i gefnogi eu pobl ifanc.

**"Roedd yn brofiad gwych dod fel rhiant, dwi wedi cael llawer o gefnogaeth gan y prosiect a thrwy gwrdd â rhieni eraill, sydd wedi bod yn amhrisiadwy."**

Rhiant cyfranogwr Darganfod

### Ysgol Haf Darganfod

Ym mis Gorffennaf, croesawyd 20 o bobl ifanc awtistig i'r cwrs preswyl haf. Bu'r cyfranogwyr yn byw mewn neuaddau preswyl er mwyn profi rhai o'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar fyfyrwyr gan gynnwys byw gyda phobl eraill, cyllidebu, siopa, coginio ac ochr gymdeithasol bywyd prifysgol.

## Ymestyn yn Ehangach

Mae Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach De-ddwyrain Cymru yn gydweithrediad rhwng timau ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd. Mae'r Bartneriaeth yn codi dyheadau addysgol oedolion a phobl ifanc yng Nghymru trwy amrywiol raglenni, gan gynnwys digwyddiad Cymraeg Cyflogadwyedd.

Mae Prifysgol Caerdydd yn canolbwyntio ar gymunedau Casnewydd, Blaenau Gwent a Chaerffili.

**Yn 2023-24, ymgysylltodd 1,146 o ddysgwyr ag Ymestyn yn Ehangach ar draws partneriaeth De Cymru.**

### Cymraeg Cyflogadwyedd

Roedd y sesiynau hyn yn dangos sut mae sgiliau Cymraeg yn gwella cyflogadwyedd, trwy gyfuniad o weithdai yn yr ysgol ac ymweliad â champws y brifysgol.

**Cymerodd dros 300 o ddisgyblion ran yn yr ymweliad â'r campws.**

**Cytunodd 73% o'r rhai a ddaeth y byddai defnyddio'r Gymraeg yn eu helpu i ddod o hyd i swydd yn y dyfodol.**

**"Dwi wedi dysgu y bydd gallu'r Gymraeg yn dod â chymaint o gyfleoedd i mi yn y dyfodol a bod mynd i'r brifysgol yn werth chweil."**

Cyfranogwr Ymestyn yn Ehangach

**"Roedd un o'r dysgwyr, sydd wedi ymddieithrio'n fawr o'r ysgol yn ddiweddar, yn sôn yn frwd wrth ei gyfoedion y gall y Gymraeg eich gwneud yn "fwy cyflogadwy" oherwydd cyfreithiau newydd a bod "mwy o gyfleoedd gwaith" ac mae'n methu aros i ddysgu mwy ym Mlwyddyn 10. Roedd yn wirioneddol hyfryd gwrando arno."**

Athro ysgol Ymgyrraedd yn Ehangach





# Gweithio gyda rhieni

## Parent Power Caerdydd

Mae The Brilliant Club yn bartner i ni ar Parent Power Caerdydd, prosiect sy'n grymuso rhieni a gofalwyr heb brofiad uniongyrchol o addysg uwch i gefnogi eu plant. Mae'r aelodau'n datblygu sgiliau trefnu cymunedol ac yn cael gwybodaeth am addysg uwch, wrth gychwyn ymgyrchoedd annibynnol sydd o fudd i'w cymuned.

**"[Ymunais â Parent Power Caerdydd oherwydd] mae gen i blentyn 14 oed sy'n agosáu at oedran prifysgol a does gen i ddim syniad, felly yn bennaf i addysgu fy hun yn gyntaf ac yna addysgu fy mhlant, gan ddechrau gyda'r un sy'n 14 oed."**

Aelod o Parent Power Caerdydd

Yn 2023-24, cyfrannodd Parent Power Caerdydd at Y Sgwrs Fawr gan gynnig newidiadau i brosbectws y brifysgol a chyfathrebu ei pholisi derbyniadau'n seiliedig ar gyd-destun.

# Denu a recriwtio

Mae ein prosiectau denu a recriwtio yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16 oed a hŷn, i'w cefnogi i symud ymlaen i addysg uwch.

## Dosbarth Meistr Camu 'Mlaen i'r Brifysgol

Croesawodd dosbarthiadau meistr Camu 'Mlaen dros 200 o bobl ifanc o gefndiroedd ehangu cyfranogiad i'r campws ar gyfer chwe dosbarth meistr, gan adeiladu gwybodaeth bynciol a meithrin y sgiliau sydd eu hangen i ffynnu yn y brifysgol. Gyda sesiynau wedi'u cynllunio a'u harwain gan fyfyrwyr PhD Prifysgol Caerdydd, mae Camu 'Mlaen yn caniatáu i gyfranogwyr adeiladu gwybodaeth a rhannu eu syniadau mewn amgylchedd sy'n ysbrydoli.





**Cynnydd o 32% yn y cyfranogwyr a nododd "Dwi'n gwybod sut brofiad fyddai astudio yn y brifysgol."**

Cynigir ystod amrywiol o bynciau i adlewyrchu diddordebau cyfranogwyr. Tra bod y rhai sy'n angerddol am Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn ymgolli yn Frankenstein gan Mary Shelley a Lemonade gan Beyoncé, roedd cyfranogwyr â diddordeb mewn Gwyddoniaeth, Technoleg a Mathemateg yn datrys problemau er mwyn cael eu rhyddhau o ystafell ddianc.

**"Roedd yn ddifyr ac yn llawn gwybodaeth drwyddi draw, a chawson ni'r wybodaeth i'n paratoi ar gyfer y brifysgol."**

Cyfranogwr dosbarth meistr Camu 'Mlaen

## Ysgol Haf Camu 'Mlaen i'r Brifysgol

Cymerodd dros 75 o gyfranogwyr ran mewn ysgol haf breswyl dros dridiau oedd yn cynnig cipolwg pellach ar fywyd prifysgol.

**Dangosodd y gwerthusiad gynnydd ystadegol arwyddocaol yng ngwybodaeth y cyfranogwyr am sut i wneud cais am eu dewis radd, a hunanhyder yn eu gallu i gyflwyno cais prifysgol cryf.**

**"Cawson ni daith o amgylch y llyfrgell, a sesiwn astudiaeth achos oedd yn ddifyr iawn. Cawson ni'r cyfle i ddefnyddio'r hyn ro'n ni'n ei wybod eisoes am wyddoniaeth i ddarganfod beth oedd yn bod ar y claf! Roedd yn ddifyr iawn ac yn rhyngweithiol."**

Cyfranogwr Ysgol Haf Camu 'Mlaen

# Partneriaeth Sutton Trust




## Llwybrau at y Gyfraith a Pheirianneg

Caiff Llwybrau at y Gyfraith a Llwybrau at Beirianneg eu rhedeg mewn partneriaeth ag Sutton Trust, elusen symudedd cymdeithasol, i fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 o gefndiroedd ehangu cyfranogiad. Mae'r cyfranogwyr yn profi gweithdai academaidd, yn mynychu lleoliadau gwaith a diwrnodau cipolwg gydag arweinwyr diwydiant, ac yn mwynhau cynhadledd breswyl haf.

Cynllunnir gweithgareddau ar y cyd gydag Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth a'r Ysgol Peirianneg. Rydym ni'n darparu gwybodaeth ac arweiniad ar fywyd prifysgol, yn ogystal â chipolwg ar astudio'r gyfraith neu beirianneg mewn gwirionedd, i helpu unigolion i baratoi a chael mynediad i brifysgol.

**Cafwyd cynnydd o 51% yn hyder y cyfranogwyr i ddefnyddio UCAS.**

Roedd sefydliadau diwydiant blaenllaw yn darparu 25 o leoliadau gwaith a diwrnodau cipolwg i gyfranogwyr Llwybrau, gan gynnwys British Airways ac Eversheds Sutherland.

**"Un peth y sylweddolais i drwy gymryd rhan yn y sesiynau blaenorol oedd bod angen i mi ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu llafar. Fodd bynnag, ar ôl y sesiwn heddiw dwi'n teimlo'n fwy hyderus i allu gwella hynny."**

Cyfranogwr Llwybrau at y Gyfraith

## Ysgol Haf Meddygaeth a Deintyddiaeth Sutton Trust

Cymerodd 77 o ddisgyblion o bob rhan o'r DU ran mewn ysgol haf breswyl dros bedwar diwrnod. Bu'r cyfranogwyr yn ymarfer sgiliau ar gyfer cyfres o gyfweliadau byr (MMIs) meddygaeth a deintyddiaeth, yn cynnal sesiynau sgiliau clinigol, ac yn cydweithio ar ddysgu ar sail achosion, ochr yn ochr â mynychu sesiynau gwybodaeth am lety, cyllid myfyrwyr, a chymdeithasau.

**Cynnydd o 24% yn y cyfranogwyr sy'n credu'n gryf y byddan nhw'n cael lle os ydyn nhw'n gwneud cais i brifysgol.**

**"I rFe wnes i wir fwynhau gwneud ffrindiau yn ogystal â chymryd rhan yn yr MMIs ac er mai dyna oeddwn i'n ei ofni ar y dechrau, dangosodd i mi pa mor dda y gallwn i wneud a sut y gallwn i wella."**

Cyfranogwr ysgol haf Meddygaeth



# Diwrnodau Agored

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal pedwar Diwrnod Agored i israddedigion bob blwyddyn, sy'n caniatáu i ddarpar fyfyrwyr grwydro'r campysau a'r cyfleusterau, cyfarfod â myfyrwyr a staff, a holi cwestiynau.

Yn y Diwrnodau Agored hyn, mae'r Tîm Ehangu Cyfranogiad a Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd yn cydweithio i gynnal sesiynau cymorth pwrpasol i fynychwyr o grwpiau blaenoriaeth. Mae llysgenhadon staff a myfyrwyr ar gael i gynorthwyo gydag ymholiadau penodol neu i helpu i gynllunio eu diwrnod, a'r cyfan mewn amgylchedd tawel a chefnogol. Rydym ni hefyd yn cynnig sesiwn galw heibio i ddysgwyr aeddfed.




# Derbyn myfyrwyr ar sail cyd-destun

**Ar gyfer darpar fyfyrwyr sy'n gwneud cais i Brifysgol Caerdydd, mae'r polisi derbyn ar sail cyd-destun yn ystyried eu cefndir a'u hamgylchiadau personol. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd i'r rhai a allai fod wedi wynebu heriau yn eu haddysg, a'r nod yw creu corff myfyrwyr mwy amrywiol.**

Diweddarodd Prifysgol Caerdydd ei pholisi derbyn ar sail cyd-destun ar gyfer mynediad 2024.

**Rydym ni'n defnyddio gwybodaeth gan UCAS am ymgeiswyr i benderfynu a ydynt yn gymwys ar gyfer cynnig ar sail cyd-destun, gan gynnwys:**

- profiad o ofal
- cyfrifoldebau rhiant
- data prydau ysgol am ddim
- statws ceisiwr lloches
- dieithrio

Gall ymgeiswyr ar sail cyd-destun dderbyn cynnig sydd radd neu ddwy'n is, cyfweliad neu glyweliad gwarantedig, a/neu bwyntiau ychwanegol neu ystyriaeth ychwanegol yn y broses sgorio.

# Llwybrau at radd

**Mae Dysgu Gydol Oes yn darparu cyrsiau rhan-amser gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae'r rhaglen Llwybrau at Radd yn ddewis amgen i Safon Uwch a chymwysterau mynediad eraill gan ei bod yn cael ei haddysgu a'i hasesu mewn ffyrdd tebyg i gyrsiau israddedig blwyddyn gyntaf. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn cael profiad ymarferol o astudio ar lefel gradd mewn amgylchedd addysg uwch.**

Darperir cefnogaeth hefyd i baratoi a chyflwyno ceisiadau gradd, ac i baratoi ar gyfer cyfweliadau gradd pan ddaw'r amser.

**Mae 381 o fyfyrwyr Llwybrau wedi symud ymlaen i astudiaethau israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd ers i'r rhaglenni Llwybrau ddechrau.**

**Roedd rhaglenni Llwybrau at Radd 2023-24 yn cefnogi ystod amrywiol o fyfyrwyr:**

- 57% yn byw mewn codau post ag amddifadedd cymharol uchel
- 48% o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- 17% gyda statws ffoadur neu geisiwr lloches
- 30% ag anabledd a ddatgelwyd

# Aspire

Fel rhan o'n hymrwymiad fel **Prifysgol Noddfa**, mae rhaglen Aspire yn cefnogi ceiswyr lloches gyda mynediad at Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad arbenigol, cyfeirio at wasanaethau a chyfleoedd pwrpasol (fel ysgoloriaethau a chymorth ariannol) ac yn creu ymdeimlad o berthyn.

## Diwrnod Agored Aspire

Croesawyd 25 o geiswyr lloches i'r campws ar gyfer Diwrnod Agored pwrpasol. Roedd y sgyrsiau'n canolbwyntio ar safbwyntiau ceiswyr lloches ar ddysgu gydol oes, derbyniadau, cyllid ac ysgoloriaethau myfyrwyr, ochr yn ochr â thros 20 o stondinau gan sefydliadau fel Oasis a Chyngor Ffoaduriaid Cymru.

**Byddai 96% o'r cyfranogwyr yn argymell y Diwrnod Agored i geiswyr lloches eraill.**

**"[Fy hoff ran o'r Diwrnod Agored oedd] caredigrwydd y bobl ac roeddwn i hefyd yn gallu dod o hyd i atebion i fy holl gwestiynau."**

Cyfranogwr ar y Diwrnod Agored

## Ysgol Haf Aspire

Croesawodd Ysgol Haf Aspire 33 o geiswyr lloches i'r campws ar gyfer wyth diwrnod o ddosbarthiadau Saesneg, a gyflwynwyd gan y tîm Rhaglenni Saesneg, a chyrsiau byr a gyflwynwyd gan Dysgu Gydol Oes. Cafodd y cyfranogwyr brofiad o fywyd prifysgol gan adeiladu cymuned gefnogol.

**Cafwyd cynnydd o 11% yn nifer y cyfranogwyr a allai eu gweld eu hunain yn astudio mewn prifysgol yn y DU, gan ddod â'r cyfanswm i 92% o'r cyfranogwyr.**

**"Roedd y cwrs yn hynod o bwysig a defnyddiol i mi. Ar ôl pob gwers, roeddwn i'n teimlo cryfder a hyder. Dwi'n hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd ran am y cyfle hwn."**

Cyfranogwr Ysgol Haf Aspire

**Roedd 33 gyfranogwyr o 18 wahanol wledydd, i greu cymuned ryngwladol amrywiol.**



## Ysgoloriaeth IELTS Aspire

Mae IELTS yn brawf hyfedredd Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer mynediad i lawer o gyrsiau prifysgol, sy'n rhwystr i lawer o geiswyr lloches.

Yn 2023-24, darparodd Ysgoloriaeth IELTS Aspire gymorth costau byw, mynediad at liniaduron, a thalu am arholiad Academaidd IELTS i wyth ceisiwr noddfa.

**"Dwi'n edrych ymlaen at gyrraedd fy nodau a gallu creu llawer o atgofion yn fy mywyd prifysgol."**

Veronika – Deiliad Ysgoloriaeth IELTS

Mae Veronika bellach yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ar ôl llwyddo yn yr arholiad IELTS.



## Ysgoloriaeth Dyfarniad Llwybr Aspire

Mae 6 ysgoloriaeth ar gael i geiswyr lloches i gwblhau rhaglen Llwybrau at Radd.

**Aeth 3 deiliad yn 2023-24 ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.**

**"Rydym ni wrth ein bodd ein bod yn gallu cynnig cyfleoedd dysgu i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru. Mae Ysgoloriaeth Llwybrau ASPIRE yn gyfle unigryw i gefnogi'r unigolion hyn ar gyrsiau israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn."**

Sara Jones, Darlithydd Cydlynol, Dysgu Gydol Oes



# Sylw i ysgolion academaidd

## Mentora



### Mentora ieithoedd tramor modern (ITM)

Mae Mentora ITM yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n annog pobl ifanc i fod yn effro i werth ieithoedd yn eu bywydau a'r manteision a ddaw yn eu sgil. Caiff myfyrwyr y brifysgol eu hyfforddi i ddod yn fentoriaid iaith a diwylliant i weithio gyda dysgwyr ym Mlynyddoedd 8 a 9 sydd eisoes wedi mynegi diffyg diddordeb mewn ieithoedd. Eu rôl yw ysbrydoli cariad at ddysgu iaith a chwilfrydedd rhyngddiwylliannol.

**Ers 2015, mae Mentora ITM wedi gweithio gyda 172 o ysgolion uwchradd ledled Cymru, tua 20,000 o ddysgwyr ac oddeutu 800 o fyfyrwyr prifysgol.**

Yn 2023-24, dewisodd 36% o'r mentoreion astudio iaith yn bwnc TGAU, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 10%.

**"Fe fwynheais i'r profiad yn gyffredinol a dysgu ffeithiau diddorol am wahanol ieithoedd ac mae wedi gwella fy meddylfryd ar sut rydw i'n gweld gwahanol ddiwylliannau."**
Mentorai ITM

**"Dwi am fynegi fy niolch am y profiadau a'r cyfleoedd ystyrlon a gefais wrth fod yn rhan o'r prosiect. Mae wedi bod yn daith werthfawr, a dwi'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at ymdrech mor werth chweil."**
Mentor ITM

**"Roedd pob un o'n mentoriaid eleni yn broffesiynol ac yn fodelau rôl rhagorol. Mae'r gefnogaeth a gynigir gan y tîm cyfan yn ardderchog. Diolch i chi gyd am eich gwaith caled!"**
Athro

**Yn 2024-25, bydd y prosiect yn gweithio gyda 114 o ysgolion uwchradd, gan gyrraedd tua 56% o'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru.**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**



## Mentora Caru Darllen

Mae **Caru Darllen** yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cymell ac yn ysbrydoli dysgwyr ysgol gynradd i gofleidio pŵer darllen. Yn 2023-24, llwyddodd y prosiect i rymuso ac uwchsgilio myfyrwyr prifysgol i gyflwyno 6 sesiwn mentora hwyliog a difyr wedi'u targedu at ddysgwyr ym mlynyddoedd 5 a 6.

**Dros 140 o ddysgwyr o 12 ysgol gynradd.**

**"Roedd y cyfranogwyr yn llawn cyffro am y prosiect. Roedden nhw'n arbennig o awyddus i enwi eu ffrindiau darllen a siarad am y llyfrau maen nhw'n eu darllen ar hyn o bryd yn yr ysgol. Yn bennaf, roedden nhw'n llawn cyffro i ddysgu mwy amdanaf i a fy amser yn y brifysgol."**

Mentor Caru Darllen

**"Doeddwn i ddim yn arfer hoffi darllen ond mae Caru Darllen wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus wrth ddarllen ac i beidio â rhoi'r gorau i lyfr yn syth. Mae angen i chi ddarllen mwy i wybod mwy."**

Mentorai Caru Darllen




## Mentora Ffiseg

Yr Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth sy'n cynnal Mentora Ffiseg, a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgolion Aberystwyth, Bangor, Abertawe, Wrecsam a De Cymru. Caiff myfyrwyr prifysgol eu hyfforddi i fod yn fentoriaid ffiseg i annog brwdfrydedd mewn disgyblion ysgol am ffiseg drwy drin a thrafod ei berthnasedd mewn bywyd bob dydd a'r sgiliau y gallant eu datblygu yn sgil cymhwyster ffiseg ôl-16.

Credwn fod ffiseg yn berthnasol i fywyd pawb ac y dylai fod ar gael i bawb sy'n dymuno ymwneud â'r pwnc.

**Ers 2019, mae 193 o fentoriaid wedi'u lleoli mewn 73 o ysgolion uwchradd ledled Cymru.**

# Pontio a chefnogi

Gall pontio i brifysgol fod yn anodd i lawer o fyfyrwyr. Gall mynediad cyfyngedig at rwydweithiau cymorth, pryderon ariannol a diffyg hunanhyder olygu bod pontio'n fwy heriol i rai myfyrwyr.

Nod mentrau parhaus Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys sesiynau ymsefydlu ar-lein, gweithgareddau adeiladu cymuned, ac ysgoloriaethau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yw cynnig y cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau dechrau llyfn a chynhwysol i bob myfyriwr.

## Ymsefydlu Myfyrwyr Aeddfed

**Cynhaliwyd ymsefydlu ar-lein ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023-24 i groesawu myfyrwyr aeddfed israddedig blwyddyn gyntaf i'r brifysgol. Cynhaliwyd y digwyddiad gan y Tîm Ehangu Cyfranogiad gyda chymorth cydweithwyr o'r Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, a Dysgu Gydol Oes.**

Anogwyd y myfyrwyr i ddathlu eu bod wedi llwyddo i gyrraedd y brifysgol, i gwrdd â'i gilydd, ac i drafod pynciau oedd yn bwysig iddynt cyn i'w hastudiaethau ddechrau.

Sicrhawyd gofod pwrpasol i fyfyrwyr aeddfed gysylltu, ac i ddeall nad ydynt ar eu pen eu hunain yn y brifysgol.

**Roedd 89% o'r rhai a ddaeth o'r farn fod y rhaglen ymsefydlu ar-lein i fyfyrwyr aeddfed yn ddefnyddiol.**

**"Roedd clywed bod gan bobl o oedran debyg yr un pryderon yn tawelu fy meddwl, ac yn golygu bod rhai pryderon yn diflannu."**

Un o'r Myfyrwyr Aeddfed ar ôl cwblhau'r Ymsefydlu




## Ysgoloriaeth Cowrie

**Mae ein partneriaeth gyda Sefydliad Ysgoloriaeth Cowrie yn rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr Du Prydeinig ddilyn gradd israddedig. Yn 2024, dyfarnwyd Ysgoloriaeth gyntaf Cowrie ym Mhrifysgol Caerdydd.**

**"Fel prifysgol sydd wedi ymrwymo i wrth-hiliaeth, rydym ni'n falch i allu dyfarnu ysgoloriaeth sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion myfyrwyr Du Prydeinig."**

Anna Varadi, Rheolwr Ehangu Cyfranogiad

# Bywyd y Myfyrwyr




## Cynllun Mentoriaid Myfyrwyr

Mae Mentoriaid Myfyrwyr yn israddedigion sy'n gweithio gyda myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn eu hysgol i gynnig cyngor diduedd, gwybodus a chyfredol.

**Yn 2023-24, cynigiwyd 1,030 o sesiynau mentora a chyfnewidiwyd 14,000 o negeseuon sgwrsio rhwng 1,309 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf a 500 o fyfyrwyr mentora.**

**"Roedd fy mentor myfyriwr yn hyfryd a gwnaeth yn siŵr fy mod yn cael sesiynau'n ymwneud â fy anghenion ac amgylchiadau bob wythnos. Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi ei holl waith!"**

Myfyriwr Israddedig Blwyddyn Gyntaf Prifysgol Caerdydd

## Sgiliau Astudio Academaidd

Mae'r tîm Bywyd Myfyrwyr yn cynnig amrywiol ddosbarthiadau sgiliau astudio academaidd ac adnoddau ar-lein i gefnogi myfyrwyr.

Mae dosbarthiadau ar gael i bob myfyriwr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, yn ymdrin â phynciau fel 'Sut i Ysgrifennu Traethawd Prifysgol', 'Awgrymiadau Adolygu ac Arholiadau', ac 'Awgrymiadau a Thechnegau Cymryd Nodiadau'.

**Dysgodd 86% o fyfyrwyr rywbeth newydd ar ôl mynd i un o'r dosbarthiadau.**

**"Roedd yr hyfforddwraig yn cyflwyno'n ardderchog. Creodd hi amgylchedd hapus a chyfforddus i ddysgu ynddo. Roedd cynnwys y sesiwn yn berthnasol, yn hawdd ei ddeall ac yn rhoi digon o gyfle i bobl fyfyrio."**

Delores, a fu mewn sesiwn Darllen a Meddwl yn Feirniadol

## Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr

Mae'r Tîm Ariannu a Chyngor i Fyfyrwyr yn cynnig cyngor cyn-mynediad hanfodol i ddarpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr ar systemau ariannu.

**Cyflwynwyd hyd at 60 o sesiynau cymorth un-i-un bob wythnos, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyllid myfyrwyr, materion academaidd a thai.**

**Datryswyd 225 o achosion myfyrwyr yn 2023-24.**

Bu Ariannu a Chyngor i Fyfyrwyr yn cysylltu â'r timau Ffioedd a Phreswylfeydd i reoli estyniadau a datrys problemau ariannu, gan leddfu pryder myfyrwyr ac osgoi tynnu'n ôl o'r brifysgol.

## Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd

Mae Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd yn galluogi pontio llwyddiannus i'r brifysgol ac yn meithrin profiad myfyrwyr cefnogol hyd at raddio i fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal, wedi ymddieithrio, â phrofiad yn y fyddin, gofalwyr a cheiswyr lloches. Mae 'Caffis Caerdydd' yn cynnig man cymdeithasol gyda diodydd, byrbrydau a gemau am ddim i'r holl fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd, ac yn hyrwyddo cymuned a pherthyn.

**"Mae Caffis Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd yn rhoi amser a lle i mi i ffwrdd o'r gwaith academaidd ac yn gyfle i ymlacio. Dwi'n hoffi gallu cwrdd â mwy o bobl fel fi."**

Myfyriwr Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd

**Graddiodd 113 o fyfyrwyr Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd yn 2023-24.**

# Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr

Mae'r tîm Cymorth Ariannol yn rhoi bwrsarïau ac ysgoloriaethau i fyfyrwyr ac yn cefnogi'r rhai sydd mewn caledi ariannol trwy'r Rhaglen Cymorth Ariannol (cronfa galedi), yn ogystal â darparu cyngor cyllidebu.

## Bwrsariaethau

### Bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd

Mae Bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd yn cefnogi myfyrwyr israddedig o gartrefi incwm isel. Mae'r fwrsariaeth, a delir yn flynyddol i fyfyrwyr cymwys, yn helpu gyda chostau astudio.

**Yn 2023-24, cafodd dros 4,000 o fyfyrwyr Fwrsariaeth Prifysgol Caerdydd. Roedd 87% yn cytuno bod y fwrsariaeth wedi eu helpu i barhau â'u hastudiaethau, a 47% yn cytuno bod y fwrsariaeth wedi eu hatal rhag rhoi'r gorau iddi.**

### Ysgoloriaeth Betty Campbell

Yn 2023-24, derbyniodd 10 myfyriwr Ysgoloriaeth Betty Campbell, sy'n cynnig hyd at £1,000 i fyfyrwyr sy'n astudio 20 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Dyfarniad y Camau Nesaf

Darperir Dyfarniad y Camau Nesaf i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen Camu 'Mlaen i'r Brifysgol ac sydd ag incwm cartref o dan £35,000. Mae'r myfyrwyr hyn yn gymwys am ddyfarniad yn eu blwyddyn gyntaf o naill ai £1,000 at gost Neuadd Breswyl Prifysgol Caerdydd neu fwrsariaeth teithio o £500.

**Derbyniodd 16 o fyfyrwyr y dyfarniad yn 2023-24.**

### Ehangu Cyfranogiad: Bwrsariaeth Profiad Gwaith

Derbyniodd 39 o fyfyrwyr y fwrsariaeth Profiad Gwaith Ehangu Cyfranogiad yn 2023-24. Roedd myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliad profiad gwaith 6-12 mis o hyd yn y DU yn gymwys i gael bwrsariaeth o £2,000.

### Dyfarniadau Rhaglen Cymorth Ariannol (Cronfeydd Caledi)

Mae'r Rhaglen Cymorth Ariannol yn helpu myfyrwyr gyda chostau byw hanfodol, gyda'r dyfarniad ar gyfartaledd yn £761.

Rydym yn cefnogi myfyrwyr sydd:

- mewn argyfwng annisgwyl
- yn ystyried gadael y brifysgol
- angen help i dalu am gostau astudio
- yn mynd yn brin o arian cyn diwedd y tymor

**Derbyniodd 1,161 o fyfyrwyr ddyfarniad yn 2023-24.**

**Cyn cael dyfarniad, dywedodd 94% o ymatebwyr fod eu cyllid yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl o gymharu â 12% ar ôl derbyn dyfarniad.**

### Gweithgareddau Eraill

Mae'r Tîm Cymorth Ariannol hefyd yn darparu gwasanaeth galw heibio dyddiol yn y Ganolfan Bywyd Myfyrwyr, ac yn gweithio ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr a'r Tîm Ehangu Cyfranogiad i ddarparu sgyrsiau cymorth a gweithgareddau costau byw.

# Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr ar hyd eu taith addysg uwch, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad at gyngor ac arweiniad yn ogystal â'r addasiadau a'r cymorth sydd eu hangen i'w cynorthwyo yn eu hastudiaethau.

### Cefnogi myfyrwyr awtistig

Cynhaliodd y Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr ddigwyddiad i fyfyrwyr awtistig i'w cefnogi wrth bontio i'r brifysgol. Cynhaliwyd y digwyddiad cyn yr wythnos ymsefydlu ac roedd yn cynnwys sgyrsiau ar wasanaethau prifysgol, cymorth anabledd, ymweliadau cyfeiriadedd a chyfarfodydd gydag ysgolion academaidd.

**Roedd 90% o'r rhai a ddaeth yn teimlo'n fwy parod i ddechrau'r flwyddyn academaidd ac yn fwy hyderus am ganfod eu ffordd o gwmpas y campws o ganlyniad.**

**"Mae'r holl beth wedi bod yn ddefnyddiol ac yn galonogol a dwi'n teimlo'n fwy hyderus i ddechrau yn y brifysgol nawr."**

Myfyriwr Prifysgol Caerdydd

**"Roedd yn wych gallu cwrdd â chyd-fyfyrwyr ag ASC cyn wythnos y glas a chael gwybodaeth ychwanegol am fywyd a chymorth yn y brifysgol."**

Myfyriwr Prifysgol Caerdydd



# Dyfodol hyderus a llwyddiannus

Rydym ni'n sicrhau bod myfyrwyr yn barod ar gyfer byd gwaith ac yn gwella eu cyflogadwyedd trwy fentrau sy'n cynnig cefnogaeth a chyfleoedd wedi'u teilwra i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae hyn yn cynnwys profiad gwaith, hyfforddiant, a chreu amgylchedd cynhwysol i helpu pob myfyriwr i lwyddo.

## Dyfodol Myfyrwyr

**Mae Dyfodol Myfyrwyr yn darparu cymorth penodol i fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch, yn ogystal â'u prif wasanaeth i bob myfyriwr.**

### Hyder o ran Gyrfa

Mae Hyder o ran Gyrfa yn gwella cyflogadwyedd myfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd dan anfantais economaidd. Mae ein cymorth wedi'i deilwra yn cynnwys profiad gwaith penodol, hyfforddiant pwrpasol, cyllid ar gyfer hyfforddiant, ac atgyfeiriadau at wasanaethau ychwanegol. Ceir ymagwedd hyblyg at ddiwallu anghenion penodol pob myfyriwr, gan helpu i feithrin hyder a chyflawni canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol.

**Ymgysylltodd 58% o'r myfyrwyr a gefnogwyd yn 2023-24 â chyfle profiad gwaith.**

**"Cefais gipolwg ar sut mae cyflogwyr yn ystyried cyflogadwyedd a'r hyn y gallaf i ei wneud i wella fy nghyflogadwyedd yn ogystal â fy hyder."**
Sora, Cyfranogwr Hyderus o ran Gyrfa



### Cymorth ychwanegol

Mae Dyfodol Myfyrwyr wedi rhoi mentrau ar waith fel system cyfeillio mewn digwyddiadau gyrfa, ebyst wedi'u teilwra i grwpiau ehangu cyfranogiad, hyfforddiant i staff ar gefnogi myfyrwyr amrywiol, a phartneriaethau gyda chyflogwyr sy'n awyddus i amrywio eu gweithlu. Mae'r mentrau hyn yn creu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i bob myfyriwr.



# Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr

Mae llysgenhadon myfyrwyr yn hanfodol i'n rhaglenni, fel modelau rôl gyda diddordebau a phrofiadau tebyg. Rydym yn annog unigolion o gefndiroedd ehangu cyfranogiad i ymgeisio am rolau llysgenhadon, gan feithrin ymdeimlad o berthyn yng nghyfranogwyr y rhaglen.

**Dros 160 o rolau llysgenhadon myfyrwyr wedi'u creu gan y Tîm Ehangu Cyfranogiad ar draws pob prosiect ym mlwyddyn academaidd 2023-24.**

Mae bod yn Llysgennad Myfyrwyr yn rhoi cyfle i fyfyrwyr presennol feithrin sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain.

**"Mae wedi bod yn brofiad anhygoel, a dwi wedi dysgu llawer o sgiliau fel hyder wrth weithio'n rhan o dîm newydd, sgiliau siarad cyhoeddus, mentro i dir anghyfarwydd a phwysigrwydd arweinyddiaeth dosturiol."**

Uzair, Llysgennad Myfyrwyr



# Myfyrdodau

## Mae blwyddyn academaidd 2023-24 wedi bod yn gyfnod o fentrau effeithiol.

Mae'r ystod amrywiol o raglenni gyda'i gilydd wedi ymgysylltu â miloedd o ddysgwyr, gan feithrin amgylchedd addysgol mwy cynhwysol a chefnogol. Mae'r llwyddiannau a'r adborth cadarnhaol gan gyfranogwyr, addysgwyr a phartneriaid yn tanlinellu pwysigrwydd ein gwaith o ran codi dyheadau a chynnig cymorth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Wrth edrych ymlaen, rydym ni'n ymroi i adeiladu ar ein cyflawniadau trwy arloesi a thwf parhaus. Trwy gryfhau partneriaethau, gwella systemau cymorth, a lansio mentrau newydd, y nod yw ymestyn ein cyrhaeddiad i fwy o unigolion a chymunedau. Bydd ein hymrwymiad diwyro i gynhwysiant a thegwch addysgol, fel yr amlinellir yn strategaeth "Ein Dyfodol, Gyda'n Gilydd," yn llywio ein hymdrechion. Mae'r strategaeth yn pwysleisio cynnig profiad addysgol rhagorol, cynhyrchu gwybodaeth newydd i fynd i'r afael â heriau byd-eang a lleol, a gweithredu fel sefydliad angori i sicrhau buddion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo a ffynnu mewn addysg uwch.

